Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

## Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/06/2014**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli ger tref farchnad Y Trallwng, Powys yw Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol ac anghenion dysgu ychwanegol eraill, sy'n cynnwys anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau cyfathrebu.

Mae'r ysgol yn addysgu 12 disgybl ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae wyth o'r disgyblion o oedran ysgol uwchradd a phedwar disgybl dros 16 oed. Mae gan bob disgybl statws 'plentyn sy'n cael gofal' (LAC) ac mae gan naw disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod o newid sylweddol ers penodi pennaeth newydd yn Ionawr 2012. Mae'r rhain yn cynnwys penodi rheolwr addysg, cydlynydd anghenion addysgol arbennig a phedwar o athrawon amser llawn. Mae'r holl staff yn gymharol newydd yn yr ysgol.

Agorodd yr ysgol ardal gemau amlddefnydd pob tywydd newydd yn Nhachwedd 2012. Defnyddir y cyfleuster hwn ar gyfer dysgu ffurfiol ac ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- mae wedi mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion yr arolygiad monitro blynyddol blaenorol;
- mae arweinwyr a rheolwyr wedi creu ethos tawel, cefnogol a gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn â'u hymddygiad a'u medrau cymdeithasol, ac maent yn uniaethu'n dda â'i gilydd, â staff ac â phobl sy'n ymweld â'r ysgol;
- mae arweinwyr a rheolwyr yn realistig a gonest ynglŷn â ble mae'r ysgol a'r hyn y mae angen iddi ei wneud i wella; ac
- mae staff addysg a gofal yn gweithio'n dda iawn fel tîm.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae wedi cyflwyno arsylwadau gwersi tymhorol. Mae hyn yn galluogi'r pennaeth addysg i nodi arfer dda. Rhennir yr arfer hon gyda'r staff mewn cyfarfodydd wythnosol. Caiff athrawon eu hannog i arsylwi gwersi ei gilydd i gynyddu eu gwybodaeth a gwella eu strategaethau addysgu ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arsylwi cymheiriaid wedi cael ei ffurfioli ac mae'n rhy gynnar i weld ei effaith ar wella addysgu a dysgu;
- mae athrawon yn rhoi adborth llafar da i ddisgyblion mewn gwersi. Maent yn cynorthwyo disgyblion yn dda yn y dosbarth i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae mwyafrif yr athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn rhoi digon o wybodaeth i ddisgyblion am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith; ac
- mae'r ysgol wedi cyflwyno fformat newydd ar gyfer cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn ddiweddar, ac maent wrthi'n eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r CAUau yn cynnwys targedau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn bob amser yn dangos camau bach o gynnydd mewn dysgu y gellir eu hadolygu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Ni chânt eu hystyried yn ddigon da wrth gynllunio gwersi.

## Argymhellion

A1 Gwneud yn siŵr, pan mae'r addysgu yn dda neu'n well, bod athrawon yn rhannu'r arfer dda hon ar draws yr ysgol

A2 Gwneud yn siŵr bod adborth ysgrifenedig manwl yn cael ei roi i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A3 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau dysgu penodol sy'n dangos camau bach o gynnydd y gellir eu hadolygu'n effeithiol ar draws yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn monitro safonau addysgu a dysgu yn drylwyr fel rhan o broses hunanarfarnu drylwyr i sicrhau bod safonau cyrhaeddiad yn codi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith i fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu. Mae'r pennaeth addysg yn cynnal arsylwadau gwersi bob tymor. Mae'r arsylwadau hyn yn cysylltu'n effeithiol â system rheoli perfformiad a gwerthuso flynyddol yr ysgol. Rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig gwerthfawr i athrawon gyda thargedau priodol ar gyfer gwella. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar godi safonau cyrhaeddiad.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod prosesau asesu yn nodi'n glir anghenion dysgu unigol pob disgybl a bod y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio athrawon**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod gynyddol o asesiadau priodol i nodi anghenion dysgu unigol pob disgybl a monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo cynllunio athrawon ac yn helpu staff i roi strategaethau addysgu priodol ar waith i wella'r deilliannau ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol yn defnyddio'r prosesau asesu hyn yn effeithiol i roi ymyriadau priodol ar waith i wella medrau darllen a rhifedd disgyblion.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a rhifedd ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cynllunio athrawon yn fanwl ac yn dangos yn glir sut y rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Defnyddir byrddau gwyn rhyngweithiol a gliniaduron yn effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh, er enghraifft i ymchwilio ar y rhyngrwyd i gwblhau gwaith cwrs mewn hanes, cyfansoddi geiriau mewn cerddoriaeth, cyflwyno eu gwaith mewn Saesneg a defnyddio ffotograffiaeth ddigidol mewn celf. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Maent yn dysgu defnyddio'r medrau hyn yn briodol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft mesur a phwyso mewn gwersi technoleg bwyd a defnyddio data i nodi tueddiadau a phatrymau mewn deilliannau arolygon mewn cymdeithaseg. Mae disgyblion gallu is yn cymhwyso medrau rhif yn effeithiol, er enghraifft wrth gyllidebu costau byw mewn gwersi medrau bywyd.

**Argymhelliad 4: Darparu cyfleoedd hyfforddi o ansawdd da i alluogi staff i ddatblygu eu medrau ymhellach wrth nodi strategaethau priodol i fodloni anghenion dysgu unigol y disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae pob un o'r athrawon yn dilyn cwrs dysgu i roi tystysgrif addysgu ragarweiniol iddynt. Mae'r ysgol wedi dyfeisio rhaglen hyfforddiant mewnol i wella dealltwriaeth athrawon o anghenion dysgu unigol y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rheoli ymddygiad, anawsterau dysgu penodol, anawsterau lleferydd ac iaith ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Mae'r rhaglen hyfforddi hon yn cael effaith gadarnhaol ar wella cynllunio athrawon. Gall athrawon nodi strategaethau priodol i fodloni anghenion dysgu unigol y disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cymryd camau i gydymffurfio â Safon 1 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Dylai'r ysgol sicrhau:**

- bod fframwaith yn ei le i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr a bod gwybodaeth o asesiadau o'r fath yn cael ei defnyddio i gynllunio er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd [1(3g)]

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol fframwaith yn ei le i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwersi ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh |
| **Rhif yr ysgol** | 666/6402 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 2 a 3 Ebrill 2014 |
| **Perchennog** | Amberleigh Care |
| **Staff** | 1 pennaeth addysg<br>1 rheolwr addysg<br>5 athro<br>1 therapydd<br>1 pennaeth gofal<br>14 staff gofal<br>4 staff nos (ar system sifftiau rota) |
| **Nifer y disgyblion** | 12 disgybl |
| **Darpariaeth** | Mae'r ysgol yn cynnig 26 awr o addysgu bob wythnos yn ystod tymhorau ysgol yn unol â'r awdurdod lleol.<br>Mae'r cartref plant wedi'i gofrestru gydag AGGCC i ddarparu ar gyfer 12 o fechgyn 11-18 oed mewn lleoliadau preswyl 52 wythnos. |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion 11-18 oed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion dysgu ychwanegol eraill sy'n cynnwys anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau cyfathrebu. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mawrth 2011 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ionawr 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Mawrth 2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Meinir Rees |
| **Arolygydd Tîm** | Anthony Mulcahy |